

CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FERCHER
12 Tachwedd 2014 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

YN BRESENNOL

Cyng I Roberts JP, R G Parry, S Parry, E Huws, I Rowlands, C LI Thomas, K Humphreys, N Highley, D Michael, N Roberts (Cyngor Sir), D Rees (Cyngor Sir)

YMDDIHEURIADAU

Cyng A Michael

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts JP. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb, yn enwedig aelod newydd Cyng Debby Michael. Hefyd dymunodd gwellhad buan i Cyng A Michael sydd yn yr ysbty.

DATGAN DIDDORDEB - Cyng S Parry cais ariannol Bryngwran Bulls.

DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 8 Hydref 2014

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 8 Hydref 2014, Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng C LI Thomas yn eilio.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Mae'r clerc wedi cyflwyno cais am grant

Plaque Eisteddfod Mon - mewn llaw

Cysgodfan Bws (glanhau) - mae'r clerc yn disgwyl i "Community Payback" gwneud y gwaith

Cysgodfan Bws (yswiriant) - mae'r clerc yn disgwyl gwybodaeth gan DVLA

Y Carreg Filltir - Mae'r gwaith wedi cael ei wneud. Gofynwyd i'r clerc anfon lythyr o ddiolch at Mr Merfyn Hughes

20 myh wrth ymyl yr ysgol - mae'r Clerc wedi derbyn ebost gan y Cyngor sir yn dilyn cyfarfod ar y safle:

"Arafu traffig Lôn Salem - Yn dilyn arolwg traffig o 10-17 Mehefin eleni roedd y canlyniadau'n ganran cyflymder 85 o 22mph a chyflymder cyfartalog o 15 mya. Gallaf gadarnhau bod gan yr Awdurdod, mewn egwyddor, dim broblem gyda gosod clustogau ar y rhan hon o'r briffordd sirol pe byddai'r cyllid lle mae ar gael trwy eich hunain, fodd bynnag, bydd ychydig iawn o effaith ar y gyflymder hyn. Byddai rhaid i mi hefyd i ymgynghori â'r ymgynghoreion statudol yn gyntaf ac os oedd yn derbyn unrhyw wrthwynebiad yna byddai unrhyw gynllun yn cael ei wneud"

"Pwynt Croesi Lon Salem - byddaf yn cyhoeddi gorchymyn gwaith gosod cyrbau isel wrth y fynedfa o stad Bro Mynydd"

"Parcio ger y marciau zig zag - bydd rhaid i mi cysylltu a'r rheolwr parcio ynghylch a'r posibilrwydd o osod cyfyngiadau yn y lleoliad hwn"

"Diffyg cyfleusterau croesi ar gyfer yr ysgol - Ni fyddai swyddog croesfan ar gael yma oherwydd nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf cenedlaethol, fodd bynnag, bydd cynllun yn cael ei lunio ar gyfer man croesi i gael ei osod yn y lleoliad mwyaf priodol gyda rhai gwelliannau mân droedffordd"

"Gallaf hefyd gadarnhau bod y llain o fin o flaen Llys Hywel yn rhan o'r amodau cynllunio a bydd yn cael ei droi'n llwybr troed"

Penderfynwyd peidio symud ymlaen gyda gosod clustogau (costau o gwmpas £3000 - £4000), hefyd ystyried grantiau yn y blwyddyn newydd.

Llinellau melyn Stryd Salem - gweler uchod

Maes chwarae - mae'r clerch yn disgwyl pris am symud y matiau a llenw'r twll

ADRODDIAD Y CADEIRYDD-

Dywedodd y Cadeirydd 'roedd Vision Support yn bresennol yn y pentref yn ddiweddar. Ychydig iawn a fynychwyd.

GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON

Cynllunio

16C169C cais amlinellol gyda mynedfa wedi gynnwys ar gyfer codi dau annedd arwahan ynghyd a chreu mynedfa newydd ar dir tu ol i'r hen Swyddfa Bost - dim sylwadau.

GOHEBIAETH YCHWANEGOL

Dim

MATERION ARIANNOL

Penderfynwyd talu y canlynnol - DVLA £5.00, Costau y Cadeirydd (teledu i'r Clwb Ieuenctid am peintio y cysgodfannau bws), £189.00 R Gordon Roberts Laurie & Co £144 (llythyr Ty'r Teulu). Rhoddion Nadolig £50 yr un: yr Ysgol feithrin, Plas Crigyll, Canolfan Dydd Plas Crigyll, yr Ysgol, Clwb yr Henoed, Clwb Ieuenctid, Bryngwran Cymunedol a £100 i'r Clwb Peldroed. Pawb yn cytun. Hefyd rhoddwyd caniatad i Cyng K Humphreys gwario hyd at £150 ar goleuadau nadolig.

MATERION ERAILL

BT Gofynnwyd i'r clerch i gysylltu â BT i gynghori bod gweithwyr sy'n gweithio ar y blwch gyffordd yn Lon Ty Hen mewn sefyllfa beryglus oherwydd traffig yn pasio.

LLOFNOD

(Cadeirydd) 14 Ionawr 2015